Bwletin Rhieni 11/12/20

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae bwletin heddiw yn wahanol iawn i'r un cynlluniwyd yn wreiddiol, gyda chyhoeddiad y Llywodraeth neithiwr wedi anfon at lawer o waith gan yr ysgol dros nos i geisio ymateb i'r trefniadau sydd eu hangen ar gyfer wythnos nesaf. Bydd yr ysgol yn cau i ddisgyblion heno a bydd dysgu yn symud i ddysgu rhithiol wythnos nesaf. Rydyn ni wedi ceisio ymateb i'r adborth yn dilyn y cyfnod clo 'firebreak' wrth wneud ein cynlluniau am yr wythnos.

Amserlen ddyddiol

Bydd amserlen bob dydd yn dechrau gyda chofrestru yn y 'Team' dosbarth am 8.50. Mae hwn yn gyfle i diwtoriaid dosbarth rhannu gwybodaeth a gwirio bod popeth yn iawn gyda'r disgyblion. Mae amserlen gwersi'r dosbarth ar gael yn y 'Team' yma a bydd unrhyw newidiadau i'r amserlen hefyd yn cael eu nodi yn 'Team' y dosbarth. Bydd pob gwers byw mewn Team y dosbarth dysgu a bydd tasgau annibynnol wedi eu nodi ar ShowMyHomework.

Mae canllawiau Teams ar gael trwy'r ddolen Canllawiau ar ddefnyddio Teams (https://spark.adobe.com/page/juZxKv7prCFRf/)

Bydd gwersi blwyddyn 10-13 yn dilyn amserlen arferol. Bydd ambell ostyngiad yn yr amserlen ar ddydd Llun wrth i ni gael y trefniadau mewn lle. Bydd amserlen blwyddyn 7-9 yn cynnwys tua hanner diwrnod o wersi byw, gyda thasgau annibynnol ar ben hwn.

Bydd amseroedd yr amserlen yn debyg i'r amserlen ysgol, ond bydd hwn ychydig yn fwy hyblyg - bydd pob gwers yn dechrau ar yr amser nodwyd ond nid oes rhaid iddynt orffen yn union ar yr amser nodwyd. Mae gwers ddwbl yn ystod dydd ysgol yn 1¼ awr, ond gall un rithiol fod rhwng 1 awr ac 1½ awr. Os yw'r wers ddwbl yn cael ei ffurfio o wers cyn egwyl ac un ar ôl, gall yr athro gwneud hwn yn wers ddwbl arferol a rhoi amser egwyl ar ddiwedd y wers.

Mae amserlen dydd olaf y tymor ychydig yn wahanol gyda gweithgareddau yn cynnwys gwasanaeth Nadolig ac mae disgyblion wedi derbyn hwn heddiw.

Os nad yw disgybl yn cofnodi mewn i gofrestru neu i wersi bydd neges absenoldeb yn mynd allan trwy neges testun neu e-bost ar y diwrnod cyntaf. Os yw'r disgybl dal heb fynychu ar ail ddiwrnod bydd galwad ffôn i wirio lles yr unigolyn. Gallwch anfon neges absenoldeb i abs@penweddig.ceredigion.sch.uk os fydd disgybl yn sâl neu gydag apwyntiad.

Os bydd cwestiynau yn codi gallwch gysylltu trwy e-bost i ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk trwy'r wythnos ar neu trwy'r rhif ffôn arferol rhwng 9-12 pob dydd.

Noson Rieni Blwyddyn 8

Mae'r noson rieni ar nos Lun yn parhau. Gellid cyfeirio unrhyw gwestiynau sy'n codi yn dilyn y noson rieni ar nos Lun i'r arweinydd cynnydd a lles, Mr Wil Bowen (Bl8a9@penweddig.ceredigion.sch.uk). Mae'r system yma o gynnal noson rieni ar-lein yn newydd i ni hefyd felly gwerthfawrogwn unrhyw sylwadau am y trefniadau – anfonwch y rhain i ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Cyfarfod Zoom i ddisgyblion sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes Chwaraeon

Rydym yn ffodus fod cyn-ddisgybl i'r Ysgol, Aled Lewis, sydd nawr yn Bennaeth Datblygu Pêl-droed i Gymdeithas Bêl-droed Cymru, wedi cytuno i gynnal sesiwn Zoom ar yrfaeoedd ym maes Chwaraeon i ddisgyblion blwyddyn 10-13. Bydd y sesiwn yn cymryd lle ar **nos Fawrth 15 Rhagfyr am 16:30**. I gofrestru, ebostiwch Mr John ar bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Test-Trace-Protect dros yr wythnosau nesaf

Bydd y system tracio cysylltiadau COVID yn parhau i weithio dros yr wythnosau nesaf, a bydd aelodau o staff yr ysgol ar gael iddynt trwy'r gwyliau os oes achos positif ymysg gymuned yr ysgol dros yr wythnosau nesaf. Os yw disgybl neu aelod o'r teulu yn dangos un o symptomau COVID, dylid ffonio 119 i archebu prawf. Mewn achos fel hwn byddwn ni'n cysylltu gydag unrhyw ddisgybl sydd wedi ei effeithio, hyd yn oed yn ystod y gwyliau.

Mae'r llywodraeth wedi newid y cyfnod ynysu nawr i 10 ddiwrnod, felly ni fydd unrhyw achos mewn ysgol uwchradd yn arwain at ddisgybl yn hunan-ynysu heibio'r 21ain o Ragfyr.

Ymgyrch Endeavour

Rhoddwyd cyfle i'r ysgol gymryd rhan mewn prosiect a fydd yn rhedeg ar y cyd rhwng ysgolion a Heddlu Dyfed-Powys. Menter sir gyfan fydd hon ar draws pob ysgol yng Ngheredigion.

Mae Ymgyrch Endeavour yn fodd o rannu gydag ysgolion, cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf, ddigwyddiad yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc yr adroddwyd i'r heddlu eu bod ar goll.

Bydd Ymgyrch Endeavour yn sicrhau bod aelod o staff yr ysgol, sef Oedolyn Allweddol, yn cael ei hyfforddi i ddefnyddio'r wybodaeth a rannwyd gyda nhw ynghylch y digwyddiad lle bu plentyn ar goll i sicrhau bod y plentyn yn cael cefnogaeth ddigonol wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

Rydym yn awyddus i gynnig y gefnogaeth orau posibl i'n holl ddisgyblion ac rydym yn credu y bydd hwn yn eithriadol o fuddiol i bawb sy'n rhan ohono.

Newidiadau Staffio

Hoffwn ddweud diolch a ffarwel i Ms Elen Page sydd yn ein gadael ni ar ddiwedd y tymor. Ni allaf orbwysleisio ei chyfraniad i'r ysgol.

Ym mis Ionawr bydd Mr Dafydd Ellis yn ymuno gyda ni yn yr ysgol fel pennaeth yr adran Fathemateg.

Trefniadau dechrau tymor

Ein bwriad yw ail-agor fel normal ar ddydd Mawrth, 5ed o Ionawr, os nad oes cyhoeddiad i'r gwrthwyneb gan y llywodraeth. Bydd hon yn wythnos 2 o'r amserlen.

Hwn bydd y bwletin olaf eleni, os nad yw'r Llywodraeth yn gwneud cyhoeddiad sylweddol arall dros yr wythnos nesaf. Mae hi wedi bod yn dymor anarferol, ond hoffwn ddiolch i chi ac i'ch plant am eich ymateb i'r amgylchiadau newydd. Hoffwn hefyd diolch i holl staff a disgyblion yr ysgol am eu gwaith caled dros y tymor.

Dymunaf Nadolig Llawen i chi gyd a gobeithiaf weld eich plant yn ôl yn yr ysgol yn ddiogel ar ddechrau'r tymor newydd.

Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)